# Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru

## Gwybodaeth i weithlu'r sector gofal plant a gwaith chwarae

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae **21 Mawrth 2022** yn foment hanesyddol i blant a'u hawliau yng Nghymru. O'r diwrnod hwn ymlaen, bydd cosbi plant yn gorfforol yn **anghyfreithlon** yng Nghymru.

Mae'r newid hwn yn digwydd yn sgil Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (y Ddeddf).

Os ydych yn gweithio gyda phlant yn y sector gofal plant a gwaith chwarae, gan gynnwys gofal dydd, gwarchod plant, gofal sesiynol, crèches, darpariaeth y tu allan i'r ysgol/gwyliau, darpariaeth gwaith chwarae wedi'i staffio a darpariaeth Dechrau'n Deg, neu os ydych yn nani, dyma beth sydd angen i chi ei wybod am y newid yn y gyfraith.

## Beth yw cosb gorfforol?

Mae sawl math o gosb gorfforol. Fel smacio, taro, slapio ac ysgwyd.

Ond mae mathau eraill hefyd.

Mae'n amhosibl rhestru pob math o gosb gorfforol oherwydd gall fod yn unrhyw ddull o gosbi plentyn gan ddefnyddio grym corfforol.

## Beth sy'n newid?

O 21 Mawrth 2022, ni fydd unrhyw un yng Nghymru, yn gallu defnyddio'r 'amddiffyniad cosb resymol' os yw'n cael ei gyhuddo o ymosodiad cyffredin. Bydd cosbi corfforol o unrhyw fath yn anghyfreithlon yng Nghymru.

## A fydd y newid yn y gyfraith yn berthnasol i bawb yng Nghymru?

Bydd, bydd yn berthnasol i bawb – rhieni neu unrhyw un sy'n gyfrifol am blentyn tra bo'r rhieni'n absennol.

Ac fel gyda chyfreithiau eraill, bydd yn berthnasol i ymwelwyr â Chymru hefyd.



## Pam mae'r newid yn y gyfraith yn bwysig?

Amcan gyffredinol y Ddeddf yw amddiffyn hawliau plant drwy wahardd cosbi plant yn gorfforol. Bydd hyn yn golygu y bydd gan blant yr un amddiffyniad rhag ymosodiad ag oedolion, ac yn gwneud y gyfraith yn gliriach fel ei bod yn haws i blant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ei deall.

Bwriedir i'r Ddeddf, ar y cyd ag ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a chymorth i rieni, arwain at ostyngiad pellach yn y defnydd o gosb corffforol i blant yng Nghymru, a goddefgarwch ohono. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod ymchwil yn dangos y gallai unrhyw fath o gosb corfforol fod yn niweidiol i blant.

## Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn cosbi plentyn yn gorfforol ar ôl i'r gyfraith newid ar 21 Mawrth 2022?

Byddant yn torri'r gyfraith. Bydd cyngor a chymorth ar gael ar draws Cymru i annog pobl i roi'r gorau i ddefnyddio cosb gorfforol a dod o hyd i ffyrdd cadarnhaol o reoli ymddygiad plant.

Nid rhwystro rhieni rhag disgyblu eu plant yw bwriad y Ddeddf. Fodd bynnag, os ydynt yn cosbi plentyn sydd yn eu gofal yn gorfforol, gallent gael eu cyhuddo o ymosodiad cyffredin. Efallai y cânt gofnod troseddol, sydd yr un fath ar gyfer unrhyw drosedd.

Stopio Cosbi Corfforol
Ending Physical Punishment

## Beth mae hyn yn ei olygu i fy sector i?



Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed yn rhoi cyfrifoldeb ar y person cofrestredig i sicrhau na ddefnyddir cosbau corfforol, na'r bygythiad ohonynt byth. Mae disgwyliadau clir hefyd yn y safonau mewn perthynas ag amddiffyn a diogelu plant. Mae gan bob gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau nad ydynt wedi cofrestru, gyfrifoldebau tuag at y plant yn eu gofal.

Dylech barhau i gyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru a'u canllawiau ymarfer wrth ymdrin ag achosion o gosb corfforol. Mae canllaw ymarfer yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â'r Ddeddf i ddarparu arweiniad i'r newid hwn yn y gyfraith.

Ar draws pob sector, bydd diddymu'r amddiffyniad cosb resymol yn golygu y bydd ymarferwyr yn gallu darparu cyngor clir, diamwys i rieni a gofalwyr bod unrhyw lefel o gosb corfforol yn anghyfreithlon yng Nghymru.

## Beth sy'n digwydd nesaf?



Cyn i'r gyfraith newid ar 21 Mawrth 2022, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau y bydd y gyfraith newydd yn cael ei gweithredu yn y ffordd orau bosibl. Cynrychiolir eich sector yn y gwaith gweithredu gan y Mudiad Meithrin a Blynyddoedd Cynnar Cymru.

Mae'r gwaith hwn yn cynnwys edrych ar brosesau, canllawiau a hyfforddiant y gallai fod angen eu hadolygu neu eu rhoi ar waith yn dilyn y newid yn y gyfraith. Prif allbwn y gwaith hwn yw datblygu'r canllaw ymarfer i eistedd ochr yn ochr â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mewn achosion lle mae'r heddlu'n penderfynu bod angen cymryd camau pellach yn dilyn adroddiad am ymosodiad ar blentyn, bydd modd dewis opsiwn adsefydlu yn lle erlyn, ochr yn ochr â datrysiad y tu allan i'r llys. Os bydd yr heddlu'n penderfynu ei bod yn briodol cynnig datrysiad y tu allan i'r llys, bydd opsiwn i drefnu cymorth rhianta wedi'i deilwra i annog technegau rhianta cadarnhaol a helpu i osgoi aildroseddu. Bydd y cymorth ychwanegol hwn yn cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol.

Mae'n bwysig eich bod yn parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddiweddariadau'r sector gofal plant i ganllawiau a hyfforddiant, gan gynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'u canllawiau ymarfer, yn y cyfnod cyn y newid yn y gyfraith ar 21 Mawrth 2022.

## Ble gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Gellir dod o hyd i wybodaeth am roi'r gorau i ddefnyddio cosb corfforol yn:
llyw.cymru/stopiocosbicorfforol

Mae *Magu Plant. Rhowch amser iddo* yn cynnig awgrymiadau ymarferol a gwybodaeth ar fagu plant mewn modd cadarnhaol:
llyw.cymru/rhowchamseriddo

Gweithdrefnau Diogelu Cymru:
diogelu.cymru

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (Canllawiau ymarfer):
diogelu.cymru/chi/index.c6.html

Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed:
llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/safonau-gofynnol-cenedlaethol-ar-gyfer-gofal-plant-wedi-i-reoleiddio.pdf

Grwpiau gorchwyl a gorffen ar weithredu:
llyw.cymru/grwpiau-gweithredu-deddf-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-2020

**Mae'r oes wedi newid. Mae agweddau wedi newid.
Does dim lle i gosb corfforol yn y Gymru fodern.**